

# **Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Ile rhoddwyd rhybudd)**

1192 Laser and Beauty

Dyddiad yr arolygiad: 14 Chwefror  
2018

Dyddiad cyhoeddi: 20 Gorffennaf  
2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhyd-y-car**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn: 0300 062 8163**  
**E-bost: [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)**  
**Ffacs: 0300 062 8387**  
**Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf .....	9
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .....	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	18
4.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol .....	22
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	23
	Atodiad B – Cynllun gwella.....	24

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru.**

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

## Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf:** rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- **Uniondeb:** mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- **Annibynnol:** rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- **Cydweithredol:** rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- **Proffesiynol:** mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol.

## Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

**Darparu sicrwydd:**

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

**Hybu gwelliant:**

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

**Dylanwadu ar bolisi a safonau:**

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddir rhybudd o 1192 Laser and Beauty ar 14 Chwefror 2018.

Roedd ein tîm, ar gyfer yr arolygiad, yn cynnwys dau arolygydd AGIC, ac roedd un ohonynt yn arwain yr arolygiad.

Archwiliodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, canfuom fod 1192 Laser and Beauty yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth effeithiol i'w gleifion. Roedd systemau ar waith i sicrhau bod y peiriannau laser a golau pwls dwys<sup>1</sup> yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Roedd angen i'r rheolwr cofrestredig hysbysu AGIC o'r bwriad i ddadgofrestru'r peiriannau hynny nad oeddent yn cael eu defnyddio mwyach.

Roedd yr amgylchedd yn lân ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac roedd hyn yn cael ei ategu gan adborth cleifion a dderbyniodd AGIC o holiaduron.

Rydym wedi gwneud ychydig o argymhellion yr ydym wedi gofyn i'r lleoliad eu hystyried a/neu eu gweithredu i gydymffurfio'n llwyr â'r holl safonau a rheoliadau.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddwyd gwybodaeth fanwl i gleifion cyn y driniaeth a chynghor ar ôl triniaeth.
- Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion.
- Roedd y gwasanaeth yn lân, yn daclus ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda
- Roedd gan y gwasanaeth contract blynyddol gydag ymgynghorydd diogelu rhag laserau.

---

<sup>1</sup> Mae golau pwls dwys yn dechnoleg sy'n cael ei ddefnyddio gan ymarferwyr cosmetig a meddygol i gwblhau triniaethau croen amrywiol at ddibenion esthetig a therapiwtig, gan gynnwys gwaredu gwallt, ffotoieuanu (e.e. trin pigmentau croen, difrod haul a gwythiennau edau) yn ogystal ag i leddfu clefydau dermatolegol megis acne.

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae hanesion meddygol i gael eu diweddarau, eu llofnodi gan y claf a'i gyd-lofnodi gan y gweithredwr ar adeg pob triniaeth
- Y gwasanaeth i ddiweddarau ei Ddatganiad o Ddiben a'i Ganllaw i Gleifion
- Y gwasanaeth i ddarparu AGIC â thystiolaeth fod pob gweithredwr wedi ymgymryd â hyfforddiant Craidd o Wybodaeth.
- Pob gweithredwr i ymgymryd â hyfforddiant diogelu priodol.
- Mae'r rheolwr cofrestredig yn cyflwyno prosesau ar gyfer cofnodi cofnodion a gweithredoedd cyfarfodydd a gwerthusiadau staff.

Gwnaethom nodi nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â:

- Ni ellir sicrhau bod AGIC yn siŵr fod y peiriant (Magma Natura Studios ND YAG) wedi cael ei wirio a'i raddnodi a bod y gwaith papur priodol ar waith, ers defnyddio'r peiriant hwnnw o fis Awst 2016.
- Nid oedd digon o dystiolaeth ar gael i wirio bod dau o'r pedwar peiriant laser cofrestredig wedi'u graddnodi a'u gwasanaethu yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr. Gwelsom dystiolaeth fod y ddau beiriant wedi cael eu defnyddio'n ddiweddar, ar ôl bod angen graddnodi<sup>2</sup>. Nid oedd y ddau beiriant ar y safle yn ystod yr arolygiad a dywedwyd wrth AGIC eu bod ar hyn o bryd gyda'r darparwr gwasanaeth ar gyfer gwasanaethu a graddnodi.

Mae'r rhain yn faterion difrifol sydd wedi arwain at gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio i'r gwasanaeth. Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, mae AGIC wedi derbyn sicrwydd digonol o'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r gwelliannau sydd eu hangen.

---

<sup>2</sup> Gall graddnodi rheolaidd helpu i sicrhau bod perfformiad y peiriant laser yn aros yn gyson dros amser, gan sicrhau'r perfformiad ac ansawdd cynnyrch gorau posibl.

## 3. Yr hyn a ganfuom

### Cefndir y gwasanaeth

Mae 1192 Laser & Beauty wedi'i gofrestru fel ysbyty annibynnol yn Uned 2 Stadiwm Liberty, Glandŵr, Abertawe, SA1 2FA

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru am y tro cyntaf ar 6 Hydref 2014

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm staff sy'n cynnwys y rheolwr cofrestredig a dau weithredwr golau pwls dwys a laser.

Darperir ystod o wasanaethau i bobl dros 18 oed sy'n cynnwys:

- Gwaredu tatŵ
- Adnewyddu croen
- Gwaredu ar bigmentiadau'r croen
- Creithiau Acne
- Gwythiennau Edau
- Lleihau gwallt blew oddi ar y wyneb a'r corff
- Lleihad braster y corff



## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Canfuom fod cleifion yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth a ddarperir ac roedd y tîm wedi ymrwymo i ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion.

Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod cleifion yn cael gwybodaeth fanwl cyn ac ar ôl triniaeth i'w helpu i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth. Mae angen i'r gwasanaeth sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau ar adeg pob triniaeth.

Roedd gan y gwasanaeth brosesau priodol ar waith i sicrhau bod ymgynghoriadau â chleifion yn cael eu cynnal mewn modd urddasol.

Mae angen i'r gwasanaeth roi proses ar waith ar gyfer casglu, adolygu a lledaenu adborth gan gleifion.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y gwasanaeth i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn casglu safbwyntiau cleifion ynghylch y gwasanaethau a ddarperir yn y clinig. Cafodd cyfanswm o saith holiadur eu cwblhau, yn amrywio o gleifion a oedd yn newydd i'r clinig (wedi mynychu am lai na chwe mis) i gleifion a oedd yn rheolaidd i'r clinig (wedi bod yn mynychu am bum mlynedd neu fwy).

Roedd adborth cleifion yn gadarnhaol iawn ar y cyfan, a nododd cleifion fod y gofal a'r driniaeth a ddarperid ar eu cyfer yn rhagorol. Roedd sylwadau cleifion yn canmol y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu yn y clinig yn cynnwys y canlynol:

"Mae'r staff yn gyfeillgar a chroesawgar iawn bob amser, yn teimlo'n ymlaciedig yn y salon, nid oes unrhyw beth yn ormod o drafferth. Mae'r triniaethau'n ardderchog, mae fy nheulu i gyd yn defnyddio'r salon hwn"

*"Mae 1192 yn eithriadol o lân a thaclus ac mae'r holl staff wedi'u hyfforddi'n dda ac yn broffesiynol bob amser"*

## Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom y gofynnwyd i'r cleifion lenwi ffurflen hanes meddygol cyn y driniaeth gychwynnol, a oedd yn cael ei llofnodi gan y claf a'r gweithredwr. Yn y mwyafrif o achosion a welwyd, roedd hanes meddygol/cyflwr/cyflyrau cleifion yn cael eu gwirio ym mhob apwyntiad i sicrhau bod y driniaeth yn cael ei ddarparu mewn modd diogel a'i fod yn cael ei gofnodi ar gofnod y claf, ond roedd rhai diffygion hepgoriadau. Gwnaethom argymhell ym mhob achos, wrth wirio hanes meddygol cleifion fod rhaid i'r holl focsys gael eu ticio gan y claf, a bod y ffurflen yn cael ei llofnodi gan y claf a'r gweithredwr.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Y gwasanaeth i sicrhau, wrth wirio hanes meddygol cleifion, fod yr holl waith papur angenrheidiol yn cael ei gwblhau'n llawn a'i llofnodi a'i gyd-lofnodi.

## Urddas a pharch

Cytunodd pob claf a gwblhaodd holiadur fod staff bob amser yn gwrtais gyda nhw a'u bod yn garedig ac yn sensitif wrth wneud gofal a thriniaeth.

Gwelsom fod y drws i'r ystafell driniaeth yn gallu cael ei gloi o'r tu mewn, a gwnaeth y staff gadarnhau eu bod yn gwneud hyn yn ystod triniaeth. Darperir tywelion urddas i gleifion yn ôl y galw ac mae cleifion yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain i ddadwisgo os oes angen.

Roedd ymgynghoriadau â chleifion yn cael eu cynnal yn yr ystafelloedd triniaeth, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gyfrinachol a phersonol yn gallu cael ei thrafod heb i neb ei chlywed.

## Gwybodaeth a chydysniad cleifion

Cytunodd pob claf a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael digon o wybodaeth am eu triniaeth, gan gynnwys y risgiau, gwahanol opsiynau triniaeth sydd ar gael, y costau ar gyfer gwasanaethau a gwasanaethau ôl-ofal. Rhoddodd un claf y sylw canlynol yn eu holiadur:

"Staff cyfeillgar, gwybodus. Bob amser yn barod i drafod ac esbonio triniaethau"

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur hefyd fod staff yn gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiadau.

Canfuom fod cleifion yn derbyn digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth. Mae hyn oherwydd bod cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn unrhyw driniaeth. Roedd trafodaethau gyda chleifion yn cynnwys y risgiau, buddion a chanlyniad tebygol y driniaeth a gynigir. Dywedwyd wrthym fod cleifion wedi cael prawf patch cyn y driniaeth yn ogystal â chael darparu â chyngor ôl-ofal yn dilyn triniaeth. Roedd hyn yn golygu bod y gwasanaeth yn cymryd camau i sicrhau diogelwch cleifion. Gwelsom hefyd enghreifftiau o wybodaeth ysgrifenedig a oedd yn cael ei ddarparu i gleifion.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd mwyafrif y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym y byddent yn gwybod sut i wneud cwyn os oeddent yn anhapus gyda'r gwasanaeth a ddarperir yn y clinig.

Roedd canllaw cleifion ar gael yn darparu gwybodaeth am y gwasanaeth ac roedd yn cynnwys yr ardaloedd sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Rydym yn argymhell y dylid diweddarau'r canllaw i gleifion i adlewyrchu cyfeiriad e-bost newydd AGIC. Yn ogystal, yn dilyn yr ymweliad arolygu, bydd angen i'r canllaw i gleifion adlewyrchu sut y gall cleifion gael mynediad i'r adroddiad diweddaraf.

Roedd datganiad o ddiben ar gael a gwnaethom ganfod bod angen diweddarau hwnnw er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau. Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yn rhaid cynnwys manylion, cymwysterau a phrofiad perthnasol yr holl staff perthnasol yn ogystal â strwythur trefniadol y gwasanaeth. Rhaid diweddarau'r datganiad o ddiben hefyd i gynnwys y manylion cyswllt cywir ar gyfer AGIC, y dyddiad y cafodd ei hysgrifennu ac unrhyw ddyddiadau adolygu dilynol.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen diweddarau'r canllaw i gleifion i adlewyrchu manylion cyswllt AGIC ac mae angen cynnwys gwybodaeth am sut y gall cleifion gael mynediad i'r adroddiad arolygu diweddaraf. Dylid cyflwyno'r canllaw i gleifion diweddaraf i AGIC.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig ddiweddarau'r datganiad o ddiben yn unol â'r rheoliadau a chyflwyno copi i AGIC.

### Cynllunio a darparu gofal

Roedd pob claf yn cael apwyntiad ymgynghori cyn dechrau'r driniaeth, a oedd yn cynnwys asesiad math o groen a phrawf croen i helpu i bennu addasrwydd ar gyfer triniaeth.

Gwelsom enghreifftiau o gofnodion cleifion, a oedd yn cael eu diweddarau gan y claf a'r gweithredwr ym mhob apwyntiad.

Canfuom fod y gwasanaeth yn cynnal cofrestri triniaeth ar gyfer pob peiriant. Cafodd y cofnodion eu cwblhau fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau ond rydym yn argymhell bod y gweithredwr yn cynnwys darpariaeth i gofnodi unrhyw effeithiau andwyol.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Y gwasanaeth i gynnwys colofn yn ei gofrestri triniaeth i gofnodi unrhyw effeithiau negyddol.

#### Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd 1192 Beauty & Laser wedi'i leoli ar lawr gwaelod safle Stadiwm Liberty, ac felly'n hygyrch i unrhyw un sydd ag anhawster symudedd. Roedd yr ystafell driniaeth a'r toiled ar un lefel, a oedd yn darparu mynediad hawdd. Roedd y gwely yn yr ystafell driniaeth yn gallu cael ei godi a'i ostwng i ddiwallu anghenion cleifion.

#### Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth

Dywedwyd wrthym, yn dilyn cwrs triniaeth, fod cleifion yn derbyn e-bost gan y gwasanaeth yn gofyn am adborth. Rydym yn argymhell bod y gwasanaeth yn ystyried ffyrdd ychwanegol i gael adborth gan gleifion. Rhaid iddo hefyd sicrhau bod cleifion yn ymwybodol o ganlyniadau'r adborth trwy gyfrwng crynodeb sydd wedi'i gynnwys yn y canllaw i gleifion.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Y gwasanaeth i ddarparu dulliau ychwanegol ar gyfer cael adborth gan gleifion.

Y gwasanaeth i gynnwys crynodeb o adborth cleifion yn y canllaw i gleifion.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Roedd systemau ar waith a oedd yn sicrhau bod cleifion yn cael eu trin mor ddiogel â phosibl.

Roedd yr ystafell driniaeth yn weledol lân ac yn daclus ac roedd amserlenni glanhau ar waith i sicrhau bod y tasgau wedi'u cwblhau.

Canfuom fod y gwasanaeth wedi cymryd camau i ddiogelu iechyd, diogelwch a llesiant staff a chleifion. Rhaid i bob gweithredwr ymgymryd â hyfforddiant diogelu priodol.

Gwnaethom argymhell fod y gweithredwyr yn sicrhau eu bod yn cwblhau holl feysydd cofnodion y claf i gadarnhau trafodaethau gyda'r claf ym mhob triniaeth.

### Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Canfuom fod y rhan fwyaf o'r trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a llesiant y staff sy'n gweithio yn y practis, a'r bobl sy'n ymweld.

Gwnaethom edrych ar ddedoliad o drefniadau cynnal a chadw ar gyfer yr eiddo. Ni welom dystiolaeth fod y profion dyfeisiadau cludadwy yn gyfredol, i helpu i sicrhau bod offer trydanol bach yn ddiogel i'w defnyddio ac y byddem yn argymhell fod hyn yn cael ei gywiro er mwyn helpu i amddiffyn diogelwch a llesiant staff sy'n gweithio yn, a phobl sy'n ymweld â'r practis.

Dywedwyd wrthym mai cyfrifoldeb y landlord, sef Stadiwm Liberty oedd y gwiriadau gwifrau bob 5 mlynedd. Rydym yn cynghori bod y gwasanaeth yn gofyn am gopi o'r dystysgrif ddiweddaraf ar gyfer ei gofnodion.

Gwnaethom archwilio rhai o'r trefniadau diogelwch tân. Roedd labeli gwasanaethu'r diffoddwyr tân yn dangos eu bod yn cael eu gwasanaethu'n flynyddol, ac roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân i'w gweld yn glir. Roedd

asesiad risg tân ar waith. Gwelsom fod y staff wedi derbyn hyfforddiant diogelwch tân a bod ymarferion tân yn cael eu cynnal.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Argymhellir fod y gwasanaeth yn gwneud trefniadau ar gyfer cynnal profion dyfeisiadau cludadwy.

#### Atal a rheoli heintiau a dadheintio

Gwelsom fod yr adeilad yn weledol lân a thaclus. Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y lleoliad. Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod yr amgylchedd yn lân ac yn daclus.

Disgrifiodd y staff mewn manylder y trefniadau rheoli heintiau yn y gwasanaeth. Gwelsom hefyd fod amserlen lanhau'n cael ei chynnal.

Canfuom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer storio a chasglu gwastraff clinigol.

#### Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion dros 18 mlwydd oed yn unig. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â hyn.

Roedd polisi ar gyfer diogelu oedolion ar waith a oedd yn cynnwys gweithdrefn glir i staff ei ddilyn pe bai unrhyw bryderon diogelu. Roedd angen diweddarau'r polisi i gynnwys manylion cyswllt yr asiantaethau diogelu lleol.

Disgrifiodd y staff sut y byddent yn asesu gallu claf i gydsynio i driniaeth a sut y byddent yn delio ag unrhyw faterion diogelu. Mae angen gwneud trefniadau ar gyfer staff i ymgymryd â hyfforddiant i amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod pob gweithredwr laser a golau pwls dwys yn ymgymryd â hyfforddiant i amddiffyn oedolion bregus.

#### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Ar adeg yr arolygiad, nid oedd y gwasanaeth yn gallu darparu tystysgrifau i ddangos fod yr holl weithredwyr laser/golau pwls dwys wedi cwblhau

hyfforddiant Craidd<sup>3</sup> Gwybodaeth. Gwelsom ddogfennau i ddangos bod yr holl weithredwyr laser wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriannau laser a golau pwls dwys.

Gwelsom fod contract ar waith gydag Ymgynghorydd Amddiffyn rhag Laserau a bod rheolau lleol yn manylu ar weithrediad diogel y peiriannau. Gwnaethom adolygu'r dogfennau sy'n ymwneud â'r asesiad risg amgylcheddol. Dywedwyd wrthym fod yr Ymgynghorydd Amddiffyn rhag Laserau wedi cwblhau asesiad risg wedi'i ddiweddarau ond nid oedd yr adroddiad hwn ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad. Bydd hyn i'w wneud ar gael angen darparu hyn i AGIC ar ôl ei dderbyn.

Gwelsom dystysgrifau i ddangos fod tri o'r pum peiriant wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Dywedwyd wrthym fod y ddau beiriant nad oeddent wedi cael eu gwasanaethu i gael eu datgomisiynu. Mae'r rheolwr cofrestredig i sicrhau bod y broses ddadgofrestru mewn perthynas â'r ddau beiriant yma'n cael ei gychwyn.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod tystiolaeth o hyfforddiant Craidd o Wybodaeth ar gyfer yr holl weithredwyr laser a golau pwls dwys yn cael ei gadw a bod copïau'n cael eu hanfon at AGIC.

Y gwasanaeth i roi copi o'r adroddiad i AGIC yn dilyn ymweliad diwethaf yr Ymgynghorydd Amddiffyn rhag Laserau i'r adeilad.

Y rheolwr cofrestredig i hysbysu AGIC yn ffurfiol am newid i'w amodau cofrestru.

#### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod cyfarpar diogelu llygaid ar gael i gleifion a gweithredwr y peiriannau laser a golau pwls dwys. Cadarnhaodd y staff fod sbectolau yn cael eu gwirio'n rheolaidd am unrhyw ddifrod. Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom

---

<sup>3</sup> Mae hyfforddiant Craidd Gwybodaeth ar gyfer gweithredwyr sy'n defnyddio laserau a systemau golau pwls dwys ar gyfer triniaethau croen amrywiol. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth a chanllawiau ar ddefnyddio laserau a systemau golau pwls dwys yn ddiogel.

grafiadau ar lensys un sbectol. Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig geisio cyngor gan yr Ymgynghorydd Amddiffyn rhag Laser<sup>4</sup> i sicrhau eu bod yn addas i'w defnyddio.

Roedd arwydd ar y tu allan i'r ystafell driniaeth a oedd yn dangos pan oedd y peiriannau'n cael eu defnyddio. Dywedwyd wrthym fod y peiriannau'n cael eu cadw'n ddiogel bob amser. Roedd yr allweddi cychwyn ar gyfer pob peiriant yn cael eu cadw'n ddiogel ar ddiwedd y dydd ond nid bob amser yn ystod y dydd. Rydym yn argymhell, pan nad yw'r peiriannau'n cael eu defnyddio fod yr allweddi bob amser yn cael eu tynnu a'u storio'n ddiogel.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Y gwasanaeth i sicrhau fod allweddi bob amser yn cael eu tynnu a'u storio'n ddiogel pan nad yw'r peiriannau'n cael eu defnyddio

#### Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Canfuom nad oedd gan y gwasanaeth ddigon o systemau i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn gyson â'r rheoliadau a'r safonau. Roedd y gwasanaeth yn gofyn am adborth gan gleifion yn dilyn triniaeth. Rydym yn argymhell ei fod yn sefydlu rhaglen o archwiliadau sicrhau ansawdd, er enghraifft, ffeiliau cleifion, arsylwadau triniaeth ac archwiliadau digwyddiadau.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Y gwasanaeth i weithredu rhaglen o archwiliadau sicrhau ansawdd.

---

<sup>4</sup> Mae'r Ymgynghorydd Amddiffyn rhag Laserau yn rhywun sy'n meddu ar sgiliau, gwybodaeth a phrofiad digonol o faterion sy'n ymwneud â diogelwch laser, ac yn gallu darparu cymorth proffesiynol priodol wrth bennu peryglon, wrth asesu risgiau, ac wrth gynnig unrhyw reolaethau a gweithdrefnau amddiffyn angenrheidiol. Mae llawer o Ymgynghorwyr Amddiffyn rhag Laserau hefyd yn darparu hyfforddiant mewn diogelwch laser.



## Rheoli cofnodion

Canfuom fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei gadw'n ddiogel. Gwnaethom archwilio sampl o nodiadau cleifion a chanfuom dystiolaeth fod nodiadau cleifion yn cael eu cadw i safon dda ond rhaid i'r gweithredwyr sicrhau bod pob maes yn cael ei gwblhau ar adeg pob triniaeth i gadarnhau trafodaethau gyda'r claf.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Y gwasanaeth i sicrhau bod pob gweithredwr wedi cwblhau pob maes o gofnodion cleifion i gadarnhau trafodaethau gyda'r claf ym mhob triniaeth.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu a monitro ei berfformiad ei hun mewn perthynas â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.*

Canfuom fod strwythur rheoli clir ar waith.

Ar adeg yr arolygiad, gwelsom ystod eang o bolisïau a gweithdrefnau.

Rhaid i'r gwasanaeth roi proses ar waith i gofnodi'r holl bryderon a chwynion a dderbynnir er mwyn galluogi dysgu ar y cyd ac i wella profiad y claf.

### Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Y rheolwr cofrestredig sy'n berchen ar ac yn rheoli 1192 Laser and Beauty. Mae'r rheolwr cofrestredig yn cael ei gefnogi gan un gweithredwr laser/IPL.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth nifer o bolisïau ar waith. Gwelsom ddyddiadau adolygu a oedd yn dangos eu bod yn cael eu diweddarau.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal bob mis mewn modd anffurfiol. Rydym yn argymhell y gallai'r rheolwr cofrestredig ddymuno dogfennu'r cofnodion yn ffurfiol er mwyn cyfeirio atynt yn y dyfodol. Dywedwyd wrthym hefyd fod sesiynau "dal i fyny" anffurfiol.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyfredol ar waith.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig ddogfennu cofnodion y cyfarfodydd staff misol yn ffurfiol.

### Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau

Canfuom fod gan y gwasanaeth weithdrefn gwyno ar waith ond nad oedd ganddynt broses addas ar waith ar gyfer cofnodi cwynion. Er mwyn cefnogi dysgu o unrhyw bryderon neu gwynion a dderbyniwyd, byddem yn argymhell i'r rheolwr cofrestredig roi proses ar waith ar gyfer cofnodi cwynion ffurfiol ac anffurfiol.

Ar adeg yr arolygiad, dim ond un gŵyn a dderbyniwyd yn y gwasanaeth, a chafodd ei thrin yn briodol.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Y gwasanaeth i gyflwyno proses ar gyfer cofnodi pryderon a chwynion a dderbyniwyd.

### Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad, gwelsom dystysgrifau yn dangos bod yr holl weithredwyr awdurdodedig wedi cwblhau hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriannau trwy ganllawiau'r gweithgynhyrchwyr. Nid oeddem yn gweld tystiolaeth fod y gweithredwyr wedi cwblhau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth.

### Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Dywedwyd wrthym fod gwiriadau cyflogaeth priodol yn cael eu gwneud mewn perthynas â staff newydd. Roedd hyn yn cynnwys gwiriad gan y gwasanaeth datgelu a gwahardd. Arfer da yw bod y gwiriadau hyn yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd i'r holl staff. Ar adeg yr arolygiad, gwnaethom nodi fod y tystysgrifau gwasanaeth datgelu a gwahardd mewn perthynas â'r rheolwr cofrestredig a'r ail weithredwr wedi mynd heibio eu dyddiad a gwnaethom argymhell fod y rhain yn cael eu hadnewyddu.

Roedd rhaglen ymsefydlu ar waith i gefnogi newydd ddyfodiaid i'r swydd.

Dywedwyd wrthym fod gwerthusiadau staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd ond nad ydynt yn cael eu cofnodi. Rydym yn argymhell paratoi nodyn ffurfiol o werthusiadau at y dyfodol.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'r rheolwr cofrestredig i sicrhau bod pob gwerthusiad staff yn cael ei ddogfennu.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad sy'n gofyn i'r gwasanaeth weithredu, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle mae'r rhain yn berthnasol): Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 4. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol fod â rhybudd neu gallant fod yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael tua 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Mae adborth yn cael ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Diwallu'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle y bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.			

## Atodiad B – Cynllun gwella

**Gwasanaeth: 1192 Health and Beautylechyd a Harddwch**

**Dyddiad yr arolygiad:14 Chwefror 2018**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Y gwasanaeth i sicrhau, wrth wirio hanes meddygol cleifion, fod holl waith papur angenrheidiol yn cael ei gwblhau yn llawn a'i lofnodi a'i gyd-lofnodi.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 23 (1) (a) (ii)			
Mae angen diweddarau'r canllaw i gleifion i adlewyrchu manylion cyswllt AGIC ac mae angen cynnwys gwybodaeth am sut y gall cleifion gael mynediad i'r adroddiad arolygu diweddaraf. Dylid cyflwyno'r canllaw i gleifion	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011			



Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
diweddaraf i AGIC.	Rheoliad 7			
Rhaid i'r darparwr cofrestredig ddiweddarau'r datganiad o ddiben yn unol â'r rheoliadau a chyflwyno copi i AGIC.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 7			
Y gwasanaeth i gynnwys colofn yn ei gofrestru triniaeth i gofnodi unrhyw effeithiau negyddol.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 23 (1)			
Y gwasanaeth i ddarparu dulliau ychwanegol ar gyfer cael adborth gan gleifion.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 24			
Y gwasanaeth i gynnwys crynodeb o adborth cleifion yn y canllaw i gleifion.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 7			

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b>				
Argymhellir fod y gwasanaeth yn gwneud trefniadau ar gyfer cynnal Profion Dyfeisiadau Cludadwy	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 26			
Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod pob gweithredwr laser ac IPL yn ymgymryd â hyfforddiant i amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 20			
Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod tystiolaeth o hyfforddiant Craidd o Wybodaeth ar gyfer yr holl weithredwyr laser a golau pwls dwys yn cael ei gadw chadw a bod copïau'n cael eu hanfon at AGIC.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 20  Rheoliad 15			
Y gwasanaeth i roi copi o'r adroddiad i AGIC yn dilyn ymweliad diwethaf yr Ymgynghorydd				

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Amddiffyn rhag Laserau i'r adeilad.	Rheoliad 8			
Y rheolwr cofrestredig i hysbysu AGIC yn ffurfiol am newid i'w amodau cofrestru.				
Y gwasanaeth i sicrhau fod yr allweddi bob amser yn cael eu tynnu a'u storio'n ddiogel pan nad yw'r peiriannau'n cael eu defnyddio	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 15			
Y gwasanaeth i weithredu rhaglen o archwiliadau sicrhau ansawdd.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 19			
Y gwasanaeth i sicrhau bod pob gweithredwr wedi cwblhau pob maes o'r cofnodion i gleifion i gadarnhau trafodaethau gyda'r claf ym mhob triniaeth.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 23			

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r rheolwr cofrestredig ddogfennu cofnodion y cyfarfodydd staff misol yn ffurfiol.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 9			
Y gwasanaeth i gyflwyno proses ar gyfer cofnodi pryderon a chwynion a dderbyniwyd.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 24			
Y rheolwr cofrestredig i sicrhau fod pob gwerthusiad staff i gael eu dogfennu.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 9			

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

### Enw (llythrennau bras):

**Swydd:**

**Dyddiad:**